

# Adolygiad Annibynnol o'r Aseiad Gallu i Weithio – y drydedd flwyddyn

Yr Athro Malcolm Harrington

Tachwedd 2012

# Adolygiad Annibynnol o'r Aseiad Gallu i Weithio – y drydedd flwyddyn

Yr Athro Malcolm Harrington

Tachwedd 2012

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 10  
o Ddeddf Diwygio Lles 2007  
Llundain: Y Llyfrfa

# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>7</b>

## Rhagair

Hwn yw fy nhrydedd ac Adolygiad Annibynnol olaf o'r Asesiad Gallu i Weithio. Roedd yn bleser gennyf dderbyn y gwahoddiad i barhau â'r gwaith roeddwn wedi'i ddechrau yn yr Adolygiad cyntaf a'r ail Adolygiad.

Dywedir ym maes gwleidyddiaeth fod Adrannau'r Llywodraeth yn hoffi cyflogi ymgynghorwyr annibynnol: mae'n rhoi hygyrdd i waith yr Adran ar yr amod nad yw'r arbenigwyr yn cynnig unrhyw newidiadau i'r system.

Nid ymdeimlad newydd yw hwn. Roedd Nicolo Machiavelli (1469–1527) yn debyg iawn ei feddwl. Caiff ei waith ysgrifenedig ei ddifrio a'i gamddyfynnu'n aml ond serch hynny, roedd yn weinyddwr galluog iawn ac yn ddiplomydd medrus. Roedd ganddo hyn i'w ddweud mewn un o'i ddarnau o waith:

*'There is nothing more difficult to carry out, nor more doubtful of success, nor more dangerous to handle, than to initiate a new order of things. For the reformers have enemies in all who benefit by the old order and only lukewarm support from those who profit by the new order, because of the incredulity of mankind, who do not truly believe in anything new, until they have actual experience of it.'*

Mae fy mhrofiad i yn yr Adran Gwaith a Phensiynau yn llawer llai negyddol ac yn llawer mwy calonogol. Drwy gydol y tri Adolygiad a gynhaliwyd gennyf, rwyf wedi cael cymorth mawr am yr hyn roeddwn yn ceisio ei gyflawni: sef, gwneud yr Asesiad Gallu i Weithio yn asesiad mwy dyngarol a gofalgwr sy'n rhoi ystyriaeth briodol i'r hawlwr hynny sy'n ei chael hi'n anodd iawn helpu eu hunain.

Mae dau brif llyn i'm hargymhellion drwy gydol fy Adolygiadau: diwygio'r broses Asesiad Gallu i Weithio o gysylltiad cyntaf yr hawlwr ymlaen i'r apêl (lle y bo angen); ac adolygu a yw'r disgrifyddion presennol yn adlewyrchu gwir natur achos hawlwr.

O ran y broses, mae'n glir i mi fod Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gwneud ymdrechion enfawr i wella hynt yr hawlwr. Mae Tîm Gweithredu Adolygiad Harrington wedi llunio adroddiadau rheolaidd ar fy rhan ar sut mae'r newidiadau arfaethedig yn mynd yn eu blaen. Maent yn dîm bach, ymroddedig, o bobl sydd wedi dangos cryn gadernid wrth newid y system a - lle y bo'n briodol - wrth beilota'r newidiadau cyn penderfynu ar strategaeth gweithredu genedlaethol. Rwy'n hynod ddiolchgar iddynt am eu gwaith caled.

Ond, mae mwy o waith i'w wneud. Mae'n rhaid sicrhau y caiff y gwelliannau sydd wedi'u dechrau eu cyflawni tan y diwedd. Mae'n bwysig cadw'r momentwm ac y caiff y newidiadau eu hadolygu'n achlysurol er mwyn sicrhau bod yr addasiadau yn gweithio. Mae'n hanfodol i'r Asesiad Gallu i Weithio gael ei adolygu, ei addasu a'i fonitro'n barhaus.

## **Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – y drydedd flwyddyn**

Mae nifer o'r elusennau mawr yn yr alwad am dystiolaeth eleni yn dweud, er eu bod wedi gweld rhywfaint o newid er gwell, eu bod wedi'u siomi gan y newid hwnnw sy'n anghyflawn o ran ei gwmpas a'i ddyfnder. Rwy'n cytuno â hwy. Mae newid proses mor fawr a chymhleth ac asesiad dadleuol yn cymryd amser – ond mae'n mynd rhagddo.

Mae cynnydd o ran y disgrifyddion wedi bod yn gadarnhaol ond eto'n araf. Rydym yn agos at greu cyfres newydd a gwell o ddarpariaethau ar gyfer trin cancer. O ran disgrifyddion ar gyfer cyflyrau meddwl, deallusol a gwybyddol a chyflyrau cyfnewidiol, mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal adolygiad ffurfiol o gynigon newydd gan nifer o elusennau er mwyn eu cymharu â'r disgrifyddion presennol. Bydd y gwaith hwn yn parhau i mewn i 2013 a gofynnwyd i mi gadeirio'r grŵp llywio annibynnol arbenigol a fydd yn goruchwylio ansawdd a dilysrwydd yr adolygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n bwysig aros am ganlyniadau hwn cyn dod i gasgliadau brys am sut i newid y disgrifyddion.

Mae argymhellion o ran hyfforddiant gweithwyr proffesiynol yng Ngweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, Atos Healthcare a'r Tribiwnlysoedd ond wedi gwneud rhywfaint o gynnydd. Yn benodol, mae'n anffodus bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi ymddieithrio o weddill yr Asesiad Gallu i Weithio i bob pwrpas. Mae Barnwyr, o'r diwedd, wedi dechrau rhoi rhywfaint o adborth i'r Swyddogion Gwneud Penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud llawer, llawer mwy os am weld dialog go iawn rhwng y Barnwyr a'r Swyddogion Gwneud Penderfyniadau. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd mewn achosion lle bo gwahaniaeth barn ar baategori sy'n briodol ar gyfer yr achos hwnnw yn seiliedig ar yr un gyfres o dystiolaeth. Yn fy marn i, nid oes sail resymegol na chyfiawn dros y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn awgrymu nad oes gan Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio gylch gwaith i ystyried cam apelio'r broses.

Credaf fod fy argymhellion yn effeithio ar newid er gwell yn yr Asesiad Gallu i Weithio. Mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd ond rwy'n hyderus fod gwelliannau sylweddol a pharhaol ar eu ffordd ac y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'm holynydd yn llwyddo i gyflawni'r dasg.

Rwyf wedi bod yn ddiolchgar yn ystod fy nghyfnod fel Adolygydd Annibynnol am yr holl gymorth ac anogaeth a roddwyd i mi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, byd ehangach yr elusennau a grwpiau cymorth cleifion, gan unigolion sydd wedi rhannu eu profiadau â mi, yn ogystal â gwleidyddion yn y tair prif blaid wleidyddol. Diolchaf i bob un ohonynt am wneud fy ngwaith yn fwy effeithiol ac am fod mor barod i rannu eu syniadau â mi.

## Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – y drydedd flwyddyn

Yn y dadansoddiad olaf, dylai'r holl ymdrechion hyn sicrhau yr asesir anghenion hawliwr yn y ffordd fwyaf teg ac effeithiol. Dylid annog a helpu'r rheini a all ddychwelyd i'r gwaith, tra'n sicrhau bod y rhai na all weithio'n cael y cymorth y maent yn ei haeddu gan y Wladwriaeth.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Malcolm Harrington', with a horizontal line drawn underneath the name.

Yr Athro Malcolm Harrington

Tachwedd 2012

## Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwynwyd yr Asesiad Gallu i Weithio i bennu cymhwyster unigolyn i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, gan roi asesiad o ran p'un a allai rhywun weithio; a allai rhywun weithio ar ryw bwynt gyda'r cymorth cywir; neu na allai rhywun weithio ac, felly, bod angen cymorth diamod y Wladwriaeth arno. Mae'r egwyddorion hyn wrth wraidd meddwl a gwaith yr Adolygiad.
2. Er i'r ddau Adolygiad Annibynnol<sup>1</sup> cyntaf ddod i'r casgliad fod yr Asesiad Gallu i Weithio yn gysyniad iawn, roedd llawer o waith i'w wneud er mwyn gwella'r ffordd y caiff y system ei gweithredu. Er bod llawer o bobl yn galw am ddiwyddymu'r Asesiad Gallu i Weithio, nid yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw dystiolaeth i newid y safbwynt hwn.
3. Mae argymhellion mewn Adolygiadau blaenorol wedi eu rhannu'n ddau faes yn fras:
  - Gwella'r broses o wneud yr asesiad yn decach ac yn fwy effeithiol drwy: cyfathrebu'n well â hawlwyd; gwella tryloywder; grymuso Swyddogion Gwneud Penderfyniadau: a sicrhau y gwneir penderfyniadau o safon;
  - Ymchwilio a yw'r disgrifyddion presennol yn addas at y diben, ac os nad ydynt, gwneud argymhellion i'w gwella.
4. Mae'r Adolygiad hwn o'r drydedd flwyddyn wedi archwilio graddfa'r newid a wnaed, llywio meysydd gwaith rhagorol o Adolygiadau blaenorol ymlaen ac wedi cynnig argymhellion ychwanegol er mwyn datblygu cwmpas newid.

### **Gweithredu argymhellion o'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn**

5. Mae pob un o'r argymhellion a wnaed hyd yma wedi'u derbyn gan y Llywodraeth. Ni weithredwyd ar bob un hyd yma.
6. Mae cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud ond mae cyflymder a chwmpas y gwelliannau wedi bod yn arafach na'r hyn y byddai'r Adolygiad wedi gobeithio amdano. Rydym ar y trywydd iawn ond nid yw'r nodau wedi'u cyflawni eto.
7. Mae'n hanfodol cadw momentwm newid. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gweithio'n galed er mwyn creu newid ac mae'n rhaid i'r dyfodol roi sylw i welliant parhaus.

---

<sup>1</sup> <http://www.dwp.gov.uk/docs/wca-review-2010-welsh.pdf> and <http://www.dwp.gov.uk/docs/wca-review-2011-welsh.pdf>

## Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – y drydedd flwyddyn

8. Gobeithio y bydd yr Adolygydd ym mlwyddyn pedair a phump yn sicrhau y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cadw ar y trywydd iawn ac nad yw'r cynnydd a wnaed hyd yma yn arafu nac yn cael ei atal ychwaith. Nid yw hyn yn hawdd i'w wneud mewn Adran fawr, ond os yw proses fwy teg ac effeithiol am ddod yn realiti, bydd yn rhaid goresgyn yr anawsterau gweithrediadol posibl hyn.
9. Mae'r Asesiad Gallu i Weithio yn parhau i gael ei bortreadu mewn ffordd negyddol iawn, yn aml wedi'i danio gan sylw andwyol yn y cyfryngau, grwpiau cynrychioliadol a gwleidyddion yn ceisio ennill poblogrwydd. Er bod yr Adolygiad yn parhau i glywed enghreifftiau o unigolion sydd wedi'u trin yn wael gan y broses Asesiad Gallu i Weithio, gall yr Adran Gwaith a Phensiynau fod yn rhesymol falch o'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Byddai rhywfaint o gydnabyddiaeth o'r gwaith sylweddol a wnaed hyd yma yn rhoi darlun mwy cytbwys ac mae angen i'r Adran Gwaith a Phensiynau fod yn rhagweithiol wrth gyfleu hyn.

## Canfyddiadau allweddol a themâu o'r Adolygiad hwn

10. Prif thema a nodwedd yr Adolygiad hwn yw'r angen i gwblhau tasgau sydd wedi'u dechrau.
11. Fel y nodir uchod, er gwaetha'r cynnydd a wnaed, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Y prif feysydd yma yw:
  - Parhau i **wella'r ffordd o gyfathrebu â hawlwyr** mae'r newidiadau hyd yma yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad hawlwyr, er y gall fod yn anodd i unigolion a Swyddogion Gwneud Penderfyniadau gael gafael ar hawlwyr.
  - Parhau i **wella cyfathrebu o fewn Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau**: Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Adran fawr ond mae'n hanfodol bod Swyddogion Gwneud Penderfyniadau ac Ymgynghorwyr Personol yn cyfathrebu â'i gilydd os yw'r sefydliad cyfan am ddeall diben cyffredinol yr Asesiad Gallu i Weithio a pham bod penderfyniadau wedi'u cyrraedd ar lefel unigol. Croesawir ymestyn cynllun peilot sydd â'r nod o lyfnhau'r cyfnod rhwng yr Asesiad Gallu i Weithio a gwaith. Mae angen gweithredu hyn ar unwaith os bydd yn profi'n llwyddiannus.
  - Parhau i **wella asesiadau wyneb yn wyneb**: dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau fonitro perfformiad Atos yn agosach. Yn wir, mae ansawdd a dyfnder y gydberthynas rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Atos yn amrywio yn lleol. Bydd rhoi cyfle i Swyddogion Gwneud Penderfyniadau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol Atos drafod achosion unigol yn helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau o safon, ond bydd yn cymryd amser i feithrin y cydberthnasau hyn.
  - Sefydlu **dialog o safon rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Thribiwnlysoedd Haen Gyntaf**: er bod cynnydd, o'r diwedd, wedi'i wneud yn hyn o beth, mae cryn dipyn i'w wneud o hyd os yw proses yr asesiad cyfan am fod yn dryloyw ac yn atebol.



## Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – y drydedd flwyddyn

- **Cadw'r Swyddog Gwneud Penderfyniadau yn ganolog i'r broses asesu a rhoi'r holl dystiolaeth ddogfennol ychwanegol sydd ei hangen arno i wneud y penderfyniad 'cywir y tro cyntaf':** bydd newid y pwyslais o'r asesiad annibynnol wyneb yn wyneb i ddull mwy cyfannol yn helpu i wella cywirdeb ac integreidd y broses gyfan. Caiff Swyddogion Gwneud Penderfyniadau eu grymuso, ond mae angen iddynt gael mynediad i gymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn gallu gwneud eu penderfyniadau a chael y cyfle i wneud y penderfyniadau hyn yn gywir y tro cyntaf.
  - **Monitro newidiadau i'r Asesiad Gallu i Weithio'n** barhaus: mae'r Adolygiad wedi gweld, yn ymarferol, y newidiadau sy'n dechrau ymsefydlu. Mae cryn bryder o hyd, ac ni ellir anwybyddu hynny. Mae parhau i fonitro'r broses o weithredu argymhellion yr Adolygiad, a'u heffaith, yn allweddol er mwyn cyfleu gwelliannau wrth iddynt ddigwydd.
  - **Cwblhau gwaith sydd eisoes ar waith ar y disgrifyddion:** mae'n rhaid cadw momentwm er mwyn gwneud newidiadau i'r darpariaethau trin canser ac o ran cwblhau, gwerthuso a gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nid yw hon yn broses hawdd o bell ffordd - mae'r gwaith hyd yma yn galonogol ac mae'n rhaid dal ati.
12. Yn sgil y cynnydd cadarnhaol a wnaed a'r angen i wneud mwy er mwyn sicrhau bod y cynnydd a wnaed yn aros, mae'r Adolygiad hwn wedi mynd ati'n fwriadol i wneud llai o argymhellion na blynyddoedd blaenorol. Atgyfnerthu a monitro yw'r camau hanfodol nesaf i'w cymryd: ar y cam hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth dros gynnal cyfnod pellach o ddiwygio radical.

Adran Gwaith a Phensiynau

Tachwedd 2012

[www.dwp.gov.uk/cymraeg](http://www.dwp.gov.uk/cymraeg)